# Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Trefniadau Byw

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi defnyddio methodoleg rheoli datgelu ystadegol newydd ar gyfer Cyfrifiad 2021. O ganlyniad, ni fydd ffigurau a grëir drwy grynhoi daearyddiaethau lefel is yn cyfateb i ffigurau a ryddhawyd ar gyfer daearyddiaethau uwch. Nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn argymell cydgrynhoi daearyddiaethau lefel is i greu daearyddiaethau uwch.

| Trefniadau Byw | Sir Gaerfyrddin | | | | Cymru | | | | Cymru a Lloegr | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011 | | 2021 | | 2011 | | 2021 | | 2011 | | 2021 | |
| **Pob preswylydd arferol 16+ oed mewn aelwydydd** | 148,278 | | **153,225** | | 2,455,794 | | **2,504,309** | | 44,533,150 | | **47,559,763** | |
| **Byw fel cwpl** | | | | | | | | | | | | |
| Cwpl rhyw arall: Yn briod neu mewn partneriaeth sifil | | | **70,370** | **46.2%** | | | **1,076,796** | **43.0%** | | | **20,604,698** | **43.3%** |
| Cwpl o'r un rhyw: Yn briod neu mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw | 72,635 | 49.0% | **489** | **0.3%** | 1,132,855 | 46.1% | **7,818** | **0.3%** | 20,429,310 | 45.9% | **158,211** | **0.3%** |
| Wedi gwahanu, ond yn dal i fod yn briod neu mewn partneriaeth sifil | | | **126** | **0.1%** | | | **1,948** | **0.1%** | | | **47,328** | **0.1%** |
| Cyd-fyw (rhyw arall) | 15,930 | 10.7% | **19,795** | **12.9%** | 285,241 | 11.6% | **338,026** | **13.5%** | 5,310,090 | 11.9% | **6,375,637** | **13.4%** |
| Cyd-fyw (yr un rhyw) | | | **999** | **0.7%** | | | **17,570** | **0.7%** | | | **317,994** | **0.7%** |
| **Ddim yn byw fel cwpl** | | | | | | | | | | | | |
| Sengl (erioed wedi priodi na chofrestru partneriaeth sifil o'r un rhyw) | 33,012 | 22.3% | **34,816** | **22.7%** | 613,871 | 25.0% | **648,604** | **25.9%** | 11,475,890 | 25.8% | **12,681,906** | **26.7%** |
| Yn briod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig | 1,436 | 1.0% | **1,379** | **0.9%** | 26,123 | 1.1% | **22,998** | **0.9%** | 640,114 | 1.4% | **652,734** | **1.4%** |
| Wedi gwahanu (gan gynnwys y rhai sy'n briod a'r rhai sydd mewn partneriaethau sifil) | 2,362 | 1.6% | **2,544** | **1.7%** | 43,691 | 1.8% | **43,597** | **1.7%** | 941,885 | 2.1% | **884,926** | **1.9%** |
| Wedi ysgaru neu mewn partneriaeth sifil gynt sydd bellach wedi'i diddymu'n gyfreithiol | 10,807 | 7.3% | **11,510** | **7.5%** | 176,590 | 7.2% | **182,796** | **7.3%** | 2,922,463 | 6.6% | **3,159,113** | **6.6%** |
| Person gweddw neu wedi colli partner sifil cofrestredig drwy farwolaeth | 12,096 | 8.2% | **10,837** | **7.1%** | 177,423 | 7.2% | **164,156** | **6.6%** | 2,813,398 | 6.3% | **2,677,216** | **5.6%** |

*Dadansoddiad:*

- *Ar gyfer preswylwyr sy'n byw fel cwpl yn Sir Gaerfyrddin, bu cynnydd bach yn nifer yr aelwydydd sy'n cyd-fyw ers Cyfrifiad 2011, sy'n debyg i lefelau cenedlaethol.*
- *Ar gyfer preswylwyr nad ydynt yn byw fel cwpl, mae'r gyfran uchaf yn Sir Gaerfyrddin ar gyfer pobl sengl (ddim wedi priodi erioed neu heb gofrestru partneriaeth sifil o'r un rhyw erioed) gyda 22.7% o'r cyfanswm, sy'n gynnydd bychan ers 2011.*
- *Mae gan Sir Gaerfyrddin gyfran uwch o breswylwyr sydd wedi ysgaru (7.5%) na Chymru (7.3%) a Chymru a Lloegr (6.6%).*
- *Mae gan Sir Gaerfyrddin hefyd gyfran uwch o weddwon neu rai sydd wedi colli partner o bartneriaeth sifil drwy farwolaeth (7.1%) na Chymru (6.6%) neu Gymru a Lloegr (5.6%).*

Ffynhonnell: Ystadegau Allweddol Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron 2022
Cynhyrchwyd gan y Tîm Dealltwriaeth Data, Cyngor Sir Caerfyrddin

Gellir defnyddio'r ystadegau hyn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored
E-bost: Data@sirgar.gov.uk

Cyngor Sir Gâr • Carmarthenshire County Council

# Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Trefniadau Byw

*Diffiniad:*

*Mae'r set ddata hon yn darparu amcangyfrifon Cyfrifiad 2021 sy'n dosbarthu preswylwyr arferol 16 oed a hŷn yng Nghymru a Lloegr yn ôl eu trefniadau byw. Mae'r amcangyfrifon fel ag yr oeddent ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, 21 Mawrth 2021.*

*Mae'r dosbarthiad "trefniadau byw" yn cyfuno ymatebion i'r cwestiwn ar statws priodasol a phartneriaeth sifil â gwybodaeth ynghylch a yw person yn byw mewn cwpl ai peidio. Nid yw'r pwnc hwn yn berthnasol ond i bobl ar aelwydydd. Mae trefniadau byw yn wahanol i statws priodasol a phartneriaeth sifil oherwydd bod cyd-fyw yn cael blaenoriaeth dros gategorïau eraill. Er enghraifft, os yw person wedi ysgaru ac yn cyd-fyw, yna mewn canlyniadau ar gyfer trefniadau byw caiff ei ddosbarthu fel cyd-fyw.*

Ffynhonnell: Ystadegau Allweddol Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron 2022
Cynhyrchwyd gan y Tîm Dealltwriaeth Data, Cyngor Sir Caerfyrddin

Gellir defnyddio'r ystadegau hyn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored
E-bost: Data@sirgar.gov.uk

Cyngor Sir Gâr • Carmarthenshire County Council